



Diolch am gysylltu â'r Ymgyrch Sothach Sbwriel i drefnu gwasanaeth/gweithdy ailgylchu yn eich ysgol. Cyn cadarnhau'r ymweliad, darllenwch y canllawiau canlynol er mwyn cael syniad o beth i'w ddisgwyl a'r hyn sydd ei angen arnom er mwyn cynnal sesiwn lwyddiannus yn eich ysgol.

### Y Gwasanaeth

Mae'r gwasanaeth fel arfer yn para 20 munud ac mae'n cynnwys y canlynol:

- Ailgylchu a'r amgylchedd ehangach - sut y gall cyfrifoldeb personol gael effaith bositif. Mae sioe sleidiau llun Power Point ar gael i gyd-fynd â'r rhan hon o'r gwasanaeth.
- Ailgylchu yng Nghaerdydd - sut y caiff ei gasglu a'i wahanu.
- Chi'ch hun fel Canolfan Ailgylchu Deunyddiau! Ail-gread rhwgweithiol o sut caiff bag gwyrrdd ailgylchu cymysg ei wahanu i'r mathau gwahanol o ddeunyddiau yn Ffordd Lamby.

### Er mwyn i ni gynnal y gwasanaeth yn llwyddiannus, sicrhewch:

- Fod gofod mawr i gyflwyno'r gwasanaeth ar gael, fel neuadd ysgol. Bydd y gwasanaeth yn cynnwys cael 2 oedolyn a 12 o blant ar flaen y neuadd gyda rhywfaint o symud. Os nad oes digon o le yn neuadd eich ysgol, rydym yn argymhell cyflwyno'r gwasanaeth i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn unig.
- Dangosir rhai pethau gweledol yn y gwasanaeth (ffotograffau) gan ddefnyddio Power Point. A fyddch cystal â chadarnhau a oes gennych gyfleusterau TG i'w defnyddio yn neuadd eich ysgol neu a oes angen dewis arall arnoch chi.
- Os dewiswch y sioe sleidiau Power Point, enwebwch aelod o staff i dderbyn y cyflwyniad Power Point cyn y gwasanaeth er mwyn hwyluso'r gwaith o osod y cyfleusterau TG i fod yn barod.

## Y Gweithdy

Mae'r gweithdy fel arfer yn para 30-40 munud a gall gynnwys cyfuniad o'r elfennau canlynol i addasu'r gweithdy i grŵp oedran eich dosbarth.

- Anturiaethau Alun Ailgylchu – yn addas i blant iau, stori llyfr lluniau. Ymunwn â'r arwr Alun Ailgylchu ar ei ymgais i lanhau'r dref ac annog y trigolion i ailgylchu.
- Gêm sortio – Gêm pasio'r parsel ond gyda phecynnau cyffredin y cartref. Pan fydd y gerddoriaeth yn stopio, gofynnir i'r plant ddewis y bag cywir.
- Y ffordd at ailgylchu – bwrdd darlunio rhyngweithiol sy'n disgrifio sut mae ailgylchu'n digwydd ar ôl i fagiau gwyrdd gael eu casglu o gartrefi.
- Y dip anlwcus – yn addas i blant hŷn. Bydd yr athrawon ar lwyfan yn ceisio dyfalu pa wastraff sydd yn y dip anlwcus drwy gyffwrdd ag ef. Yna rhaid i'r plant bleidleisio dros y bin cywir – ailgylchu, cyffredinol neu fwyd.

Mae'r gweithdy hwn yn addas i *hyd at 30 o blant*, a gallwn gynnal *hyd at ddau weithdy fesul ymweliad*.

## Er mwyn i ni gynnal y gweithdy'n llwyddiannus, sicrhewch:

- Fod athro yn bresennol yn ystod y gweithdy.
- Bod lle addas wedi'i baratoi i gynnal y gweithdy mewn dosbarth neu neuadd yr ysgol. Mae'r gêm sortio yn gofyn i'r plant eistedd mewn cylch. Mae angen bwrdd a chadair i'r athro eistedd arno yn ystod y gêm dip anlwcus. Trefnwch le addas cyn i ni gyrraedd, os gwelwch yn dda.
- Bod llwybr mynediad clir ar gael i ni gario offer at ofod gweithdy ar y llawr daear neu fod lifft ar gael. A fyddesch cystal â rhoi gwybod i ni'r amser gorau i gyrraedd o ran prysurdeb y corridorau, gan fod rhai o'r eitemau'n eithaf mawr.
- Rhowch wybod am unrhyw drefniadau parcio/dadlwytho yn eich ysgol. Os nad oes man parcio ar gael, byddwn yn dadlwytho offer y gweithdy yn yr ysgol cyn gadael i chwilio am fan parcio. Rhowch wybod i ni a yw hyn debygol er mwyn i ni allu caniatâu mwy o amser i chwilio am fan parcio. Ni allwn fod yn gyfrifol am ddechrau'n hwyr o ganlyniad i oedi wrth barcio.
- Nodwch fod y gwasanaethau/gweithdai wedi'u hasesu o ran risgiau er mwyn eu cynnal yn ddiogel. Fodd bynnag, os bydd angen cymorth cyntaf ar blentyn, rhaid i'r ysgol ei roi.
- Gellir dod o hyd i gopi o'n hasesiad risg ar Fewnrwyd Cyngor Caerdydd (cyfeirnod y ddogfen WM.303A). Fel arall, gellir cael copi electronig o'r ddogfen ar gais.

Rydym yn gobeithio y byddwch chi a'ch disgyblion yn mwynhau'r gweithdy ac os oes gennych unrhyw gwestiynau, sylwadau neu argymhellion pellach o ran sut i wella'r gweithdy, anfonwch e-bost at: [timstrategaethgwastraff@caerdydd.gov.uk](mailto:timstrategaethgwastraff@caerdydd.gov.uk)



Thank you for contacting the Really Rubbish Campaign to arrange a recycling assembly/workshop at your school. Before confirming your visit, please read the following guidance to let you know what to expect and what we need to deliver a successful session at your school.

### **The Assembly**

The assembly typically lasts 20 minutes and covers.

- Recycling and the wider environment – how personal responsibility can have a positive effect. A short Power Point photo slide show is available to illustrate this part of the assembly.
- Recycling in Cardiff – how it is collected and separated.
- The human MRF! An interactive recreation of how a mixed green bag of recycling is separated into its different material types at Lamby Way.

### **For the assembly to be a success, please ensure:**

- A space large enough to deliver the assembly is available, such as a school hall. The assembly will involve having 2 adults and 12 children at the front of the hall with some movement involved. If your school hall cannot provide adequate space, we recommend delivering the assembly to Key Stage 2 pupils only.
- Some assembly visuals (photographs) are displayed using Power Point. Please confirm if you have IT facilities to use in your school hall or if you require an alternative.
- If opting for the Power Point photo slide show, please nominate a member of staff to receive the Power Point presentation ahead of the assembly to ease the IT set up.

## **The Workshop**

The workshop typically lasts for 30-40 minutes and can include a combination of the following elements to adapt the workshop to the age group of your class.

- The adventures of Michael Recycle – suitable for younger children, a picture book story. We join caped crusader Michael Recycle on his mission to tidy up the town and get the townspeople recycling.
- Sort it out game – A game of pass the parcel but with common household packaging. When the music stops, the children will be asked to choose the correct bag.
- The road to recycling – an interactive storyboard describing how recycling happens once household green bags are collected.
- The unlucky dip – suitable for older children. Teachers take the stage, and try to guess the waste item in the unlucky dip by touch alone. The children then must vote for the correct bin, recycling, general or food.

The workshop is suitable for a *maximum of 30 children* and we can provide a *maximum of two workshops per visit*.

### **For the workshop to be a success, please ensure:**

- A teacher is present during the workshop.
- A suitable space has been prepared to deliver the workshop in a class or school hall. The sort it out game requires the children to sit in a circle. The unlucky dip requires a table and chair for the teacher to sit at during the game. Please arrange a suitable space before we arrive.
- A clear access route is available for us to carry workshop equipment to a ground floor workshop space or a lift is available. Please advise an arrival time when the corridors will not be too busy as some equipment is quite large.
- Please let us know about the parking/ unloading arrangements at your school. If a parking space is not available, we will unload the workshop equipment at the school before leaving to find a parking space. Please advise us if this is the likely arrangement so that we can allow for extra time. We cannot take responsibility for a late start due to parking delays.
- Please be advised that the assembly/ workshops have been risk assessed to be delivered safely. However, should a child require first aid, this must be provided by the school.
- A copy of our risk assessment can be found on the Cardiff Council Intranet (document reference WM.303A). Alternatively, an electronic copy can be provided upon request.

We hope that you and your pupils enjoy the workshop and if you have any further questions, comments or recommendations to improve the workshop, please email:  
[wastestrategyteam@cardiff.gov.uk](mailto:wastestrategyteam@cardiff.gov.uk)